ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Cynnwys a dull o gasglu data ar gyfer yr Arolwg Iechyd Cymru yn y dyfodol

Dyddiad cyhoeddi: **21 Mai 2014**
Ymatebion erbyn: **13 Awst 2014**

© Hawlfraint y Goron 2014 WG22029

| | |
|---|---|
| Trosolwg | Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r cynnwys a'r dull o gasglu data yn y dyfodol ar gyfer Arolwg Iechyd Cymru. |
| Sut i ymateb | Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy'r e-bost/post i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn 13 Awst 2014.<br><br>Mae dogfen ymgynghori a ffurflen ymateb ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn http://wales.gov.uk/consultations/?lang=cy |
| Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig | Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.<br><br>Mae gwybodaeth ar gael am Arolwg Iechyd Cymru yn: http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-health-survey/?skip=1&lang=cy<br><br>Er mwyn cynnwys eich enw ar restr dosbarthu Arolwg Iechyd Cymru, cysylltwch â'r cyfeiriad isod: ystadegau.iechyd@cymru.gsi.gov.uk |
| Manylion cysylltu | Y Tîm Ystadegau a Dadansoddi Iechyd<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>ystadegau.iechyd@cymru.gsi.gov.uk<br><br>029 2082 6710 |

Diogelu data

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy’n gweithio ar y materion y mae’r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae’n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion i’r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Mae hynny’n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i’ch enw a’ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion.

Mae’n bosibl y bydd yr enwau a’r cyfeiriadau y byddwn wedi’u cuddio yn cael eu cyhoeddi’n ddiweddarach, er nad yw hynny’n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i’r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny’n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae’r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a’i gyfeiriad, bydd hynny’n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â’u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â’r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu’r wybodaeth.

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 4
2. Defnyddwyr Arolwg Iechyd Cymru a'i ddibenion..... 6
3. Cynnwys Arolwg Iechyd Cymru ..... 8
4. Cynllunio'r sampl ar gyfer casglu data Arolwg Iechyd Cymru ..... 11
5. Amlder casglu data Arolwg Iechyd Cymru a thueddiadau dros amser..... 13
6. Argaeledd canlyniadau Arolwg Iechyd Cymru ..... 15
7. Blaenoriaethau ..... 18
8. Y Camau Nesaf ..... 20
Atodiad A. Rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad ..... 21

# 1. Cyflwyniad

Mae Arolwg Iechyd Cymru yn rhoi gwybodaeth unigryw am iechyd a ffyrdd o fyw sy’n gysylltiedig ag iechyd ar gyfer y bobl sy’n byw yng Nghymru. Mae’n ymdrin ag amrywiaeth o faterion sy’n gysylltiedig ag iechyd, gan gynnwys statws iechyd, ffyrdd o fyw ac ymddwyn sy’n gysylltiedig ag iechyd, a defnydd o wasanaethau iechyd. Sefydlwyd yr arolwg yn Hydref 2003 ac mae’n rhedeg drwy’r flwyddyn.

Caiff yr arolwg ei gomisiynu a’i ddadansoddi gan ystadegwyr ac ymchwilwyr yn Llywodraeth Cymru ac mae’r ystadegau sydd ynddo wedi’u dynodi’n Ystadegau Gwladol. Mae Ystadegau Gwladol yn cael eu cynhyrchu yn ôl safonau proffesiynol uchel sydd wedi’u disgrifio yng Nghod Ymarfer Ystadegau Gwladol. Byddant yn cael eu hadolygu’n rheolaidd i sicrhau eu hansawdd a’u bod yn cwrdd ag anghenion cwsmeriaid, ac maent yn cael eu cynhyrchu’n rhydd oddi wrth ymyrraeth wleidyddol.

Mae gwybodaeth ar gael am Arolwg Iechyd Cymru a’i allbynnau ar wefan Llywodraeth Cymru: http://wales.gov.uk/statistics-and-research

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am farn defnyddwyr Arolwg Iechyd Cymru am gynnwys yr arolwg a’r dull o gasglu data ar ei gyfer yn y dyfodol. Bydd yr ymgynghoriad yn gyfle i ystyried opsiynau i gael y gwerth mwyaf posibl am arian o gyllideb bresennol Arolwg Iechyd Cymru neu gyfleoedd i arbed arian.

Rydym yn ymgynghori ar yr adeg hon er mwyn cael amser i ystyried ymatebion i’r ymgynghoriad wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer Arolwg Iechyd Cymru ar ôl 2015 ac i oleuo ystyriaeth ehangach o dirwedd arolygon yng Nghymru. Bydd contract presennol yr arolwg yn dod i ben ar ôl cwblhau’r gwaith maes ar gyfer 2015.

Ochr yn ochr â’r ymgynghoriad hwn, cynhelir adolygiad ehangach o arolygon er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer cynnal arolygon ar raddfa fawr yng Nghymru yn y dyfodol. Mae’r adolygiad yn cwmpasu arolygon cymdeithasol ar raddfa fawr a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru a rhai cyrff sy’n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â rhai arolygon a gynhelir yn llai aml, ac mae’n cynnwys Arolwg Iechyd Cymru. Bydd yr adolygiad yn ystyried a oes cyfle i gyfuno neu symleiddio rhai arolygon er mwyn darparu’r wybodaeth fanwl, ddibynadwy sydd ei hangen mewn ffordd mor effeithlon a chost-effeithiol â phosibl. Bydd gwybodaeth o’r ymgynghoriad hwn ar Arolwg Iechyd Cymru yn cael ei hystyried ochr yn ochr â’r adolygiad ehangach hwn o arolygon.

Amcan y gwaith hwn yw sicrhau y bydd y data a gesglir yn y dyfodol, beth bynnag y ffurf, yn creu ffynhonnell wybodaeth werthfawr a dibynadwy, ac yn rhoi gwerth am arian.

Mae’r ddogfen hon yn cynnwys opsiynau i’w hystyried er mwyn sbarduno syniadau. Mae blychau ticio a blychau sylwadau mewn mannau priodol yn y ddogfen ac mae crynodeb o’r cwestiynau yn Atodiad A. Nid ydym yn gofyn i ymatebwyr lenwi’r holl flychau os yw’n well ganddynt beidio â gwneud hynny.

Mae’r ymgynghoriad yn agored i bob unigolyn a sefydliad.

Cyhoeddir crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad hwn yn ddiweddarach yn 2014.

Mae’r ymgynghoriad yn dechrau ar 21 Mai 2014 a 13 Awst 2014 yw’r terfyn amser ar gyfer cyflwyno ymatebion.

## 2. Defnyddwyr Arolwg Iechyd Cymru a'i ddibenion

Mae Arolwg Iechyd Cymru yn rhoi gwybodaeth unigryw am iechyd a ffyrdd o fyw sy'n gysylltiedig ag iechyd ar gyfer y bobl sy'n byw yng Nghymru. Mae'n ymdrin ag amrywiaeth o faterion sy'n gysylltiedig ag iechyd, gan gynnwys statws iechyd, ffyrdd o fyw ac ymddwyn sy'n gysylltiedig ag iechyd, a defnydd o wasanaethau iechyd. Mae'n cyfleu darlun o iechyd poblogaeth Cymru, yn dangos amrywiadau rhwng is-grwpiau ac ardaloedd, a newidiadau dros amser, ac yn darparu gwybodaeth bwysig ar gyfer llunio a monitro strategaeth iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

**Hoffem gael gwybod mwy am ddefnyddwyr Arolwg Iechyd Cymru.**

Rhowch y manylion canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw:** | | **Cyfeiriad e-bost:** | |
| **Sefydliad:** | | **Rhif ffôn:** | |
| **Y math o sefydliad sy'n ymateb:** *cliciwch ar y blwch priodol* | | | |
| Llywodraeth Cymru | ☐ | Sector preifat | ☐ |
| Llywodraeth genedlaethol heblaw LIC | ☐ | Academaidd | ☐ |
| Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | ☐ | Cyfryngau | ☐ |
| Llywodraeth leol | ☐ | Aelod o'r cyhoedd | ☐ |
| Y GIG | ☐ | Arall *(rhowch fanylion)* | ☐ |
| Elusen neu sefydliad gwirfoddol | ☐ | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Os byddwn am siarad ymhellach â chi am Arolwg Iechyd Cymru, a gawn ni gysylltu â chi?** *(rhowch eich cyfeiriad e-bost neu rif ffôn)* | Cewch<br>Na chewch | ☐<br>☐ |
| **A fyddech yn hoffi i'ch manylion gael eu cynnwys ar ein rhestr cysylltu er mwyn rhoi gwybod i chi am ddatblygiadau sy'n ymwneud ag Arolwg Iechyd Cymru?** | Byddwn<br>Na fyddwn | ☐<br>☐ |

**Hoffem gael gwybod mwy am y dibenion y mae Arolwg Iechyd Cymru yn cael ei ddefnyddio ar eu cyfer.**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pa mor ddefnyddiol yw Arolwg Iechyd Cymru i chi?** | | | | | | | |
| Defnyddiol iawn | ☐ | Eithaf defnyddiol | ☐ | Ddim yn ddefnyddiol iawn | ☐ | Ddim yn ei ddefnyddio | ☐ |

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer beth rydych yn ei ddefnyddio? (Ticiwch bob blwch sy'n gymwys)** | |
| Amcangyfrifon cenedlaethol o iechyd a ffyrdd o fyw sy'n gysylltiedig ag iechyd | ☐ |
| Edrych ar ganlyniadau ar gyfer ardaloedd lleol | ☐ |
| Edrych ar wahaniaethau rhwng is-grwpiau poblogaeth | ☐ |
| Tystiolaeth ar gyfer pennu a monitro targedau, dangosyddion a pholisïau | ☐ |
| Gwybodaeth ar gyfer cynllunio gwasanaethau | ☐ |

| | |
|---|---|
| Ymchwil a dadansoddi | ☐ |
| Dyrannu adnoddau | ☐ |
| Gwneud penderfyniadau | ☐ |
| Datblygu polisi | ☐ |
| Gwerthuso canlyniadau neu reoli perfformiad | ☐ |
| Arall<br>*Os arall, rhowch fanylion:* | ☐ |
| **Disgrifiwch yn fwy manwl sut yr ydych yn defnyddio Arolwg Iechyd Cymru:** | |
| **Rhowch enghreifftiau penodol o sut yr ydych wedi defnyddio Arolwg Iechyd Cymru i wneud y canlynol**<br>• Dyrannu adnoddau<br>• Gwneud penderfyniadau<br>• Datblygu polisi<br>• Gwerthuso canlyniadau neu reoli perfformiad<br>*Nodwch ar ba lefel ddaearyddol yr oedd y gwaith hwn wedi'i wneud* | |
| **A fyddech yn hoffi defnyddio Arolwg Iechyd Cymru at ddiben penodol ond yn methu â gwneud hynny ar hyn o bryd?**<br>*Os byddech, nodwch beth a pham* | |
| **Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych am eich defnydd o Arolwg Iechyd Cymru a'i ddefnyddioldeb** | |
| **Pe na byddai Arolwg Iechyd Cymru ar gael, beth fyddai effaith hynny ar eich gwaith (nodwch unrhyw effaith ariannol hefyd)?** | |

## 3. Cynnwys Arolwg Iechyd Cymru

Mae'r arolwg yn dibynnu ar holiaduron hunanlenwi. Felly, bydd y canlyniadau'n adlewyrchu dealltwriaeth pobl a'u ffyrdd o gofnodi eu hiechyd, mathau o ymddygiad sy'n gysylltiedig ag iechyd a'u defnydd o wasanaethau iechyd. Oherwydd eu natur, rhaid i holiaduron hunanlenwi fod yn glir iawn, a gofyn cwestiynau byr a syml mewn ffordd sy'n hawdd ei deall. Rhaid i gwestiynau fod yn addas i'r boblogaeth gyffredinol, bod yn ddefnyddiol i ddefnyddwyr o bob math a bod yn rhan o arolwg cydlynol. Er mwyn peidio â rhoi gormod o faich ar ysgwyddau'r ymatebwyr (gyda'r amcan hefyd o sicrhau cyfraddau ymateb uchel), mae'r Arolwg Iechyd Cymru presennol yn cynnwys y nifer lleiaf posibl o gwestiynau gan geisio cwmpasu'r prif bynciau sydd o ddiddordeb.

Mae'r prif bynciau/modiwlau yn yr arolwg yn ymwneud â:

- statws iechyd, salwch, a chyflyrau eraill – canfyddiadau ar gyfer statws iechyd cyffredinol (gan gynnwys y set o gwestiynau SF-36), y gwahanol fathau o salwch a gofnodwyd (gan gynnwys pwysedd gwaed uchel, anhwylder ar y galon neu salwch resbiradol), a chyflyrau eraill (fel anhawster â'r golwg neu'r clyw).
- ffyrdd o fyw sy'n gysylltiedig ag iechyd – canfyddiadau ar fathau o ymddygiad mewn ffyrdd o fyw a gofnodwyd, gan gynnwys ysmygu, yfed alcohol, bwyta ffrwythau a llysiau, gweithgarwch corfforol, a mynegai màs y corff.
- defnyddio gwasanaethau iechyd – canfyddiadau ar y defnydd a gofnodwyd o amrywiaeth o wasanaethau iechyd gan gynnwys siarad â meddyg teulu neu fynd at y deintydd. Mae'n cynnwys gwybodaeth am feddyginiaethau hefyd.
- iechyd plant – canfyddiadau ar iechyd cyffredinol plant, eu ffyrdd o fyw sy'n gysylltiedig ag iechyd a'u defnydd o wasanaethau.

**Hoffem gael gwybod mwy am y defnydd o newidynnau penodol o fewn data Arolwg Iechyd Cymru.**

| | **Pa mor ddefnyddiol yw'r pwnc?** | | | | **Pa mor aml y mae angen ei ddefnyddio?** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oedolion:** | Defnyddiol iawn | Eithaf defnyddiol | Ddim yn ddefnyddiol iawn | Ddim yn ei ddefnyddio | Pob blwyddyn | Pob 2-3 blynedd | Llai aml | Dim gwahaniaeth |
| Iechyd cyffredinol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Statws iechyd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Salwch | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cyflyrau eraill | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Symptomau heb eu trin | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ysmygu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Alcohol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ffrwythau a llysiau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgarwch corfforol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mynegai Màs y Corff | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Defnyddio gwasanaethau meddyg teulu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Defnyddio gwasanaethau ysbyty | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwasanaethau iechyd eraill | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Meddyginiaethau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Lles goddrychol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Arall…rhowch fanylion | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Plant:** | | | | | | | | |
| Iechyd cyffredinol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Salwch | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Arferion bwyta | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gweithgarwch corfforol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Defnyddio gwasanaethau iechyd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Arall…rhowch fanylion | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rhowch wybod i ni am unrhyw bynciau eraill y teimlwch fod angen eu cynnwys yn Arolwg Iechyd Cymru**
*Nodwch y pwnc, yr amlder, a pham y mae ei angen*

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych am gynnwys Arolwg Iechyd Cymru**
*Nodwch unrhyw bynciau nad oes eu hangen bellach a’ch barn am gydbwysedd y cwestiynau rhwng y prif feysydd*

Mae’r rhan fwyaf o gynnwys Arolwg Iechyd Cymru wedi aros yr un fath ers ei sefydlu yn 2003. Roedd cwestiynau am iechyd plant wedi’u cynnwys yn 2007 a chafwyd newidiadau yn y cwestiynau am ymddygiad sy’n gysylltiedig ag iechyd oedolion yn 2008.

Un peth i’w ystyried ar gyfer y dyfodol yw cyflwyno modiwlau craidd a modiwlau cylchdroi. Mae hwn yn ddull a ddefnyddir yn yr Arolwg Iechyd ar gyfer Lloegr ac yn Arolwg Iechyd yr Alban, sef gofyn set o gwestiynau craidd bob blwyddyn a gofyn modiwlau o gwestiynau sy’n cylchdroi yn llai aml. Byddai defnyddio modiwlau sy’n cylchdroi yn rhoi cyfle i gynnwys mwy o bynciau, i fod yn fwy ymatebol ac i gynnwys

cwestiynau mwy manwl. Fodd bynnag, byddai'r pynciau yn y modiwlau'n fwy cyfyngedig o ran amlder casglu'r data, argaeledd data am dueddiadau ac o ran y cyfle i ddadansoddi is-grwpiau (yn achos yr is-grwpiau hynny lle y mae amcangyfrifon yn cael eu gwneud drwy gyfuno data o'r arolwg ar gyfer mwy nag un flwyddyn).

**Hoffem gael gwybod mwy am eich barn am gyflwyno modiwlau craidd a modiwlau cylchdroi.**

| |
|---|
| **Rhowch wybod eich barn ar fanteision neu fel arall o gyflwyno modiwlau craidd a modiwlau cylchdroi** |
| **Rhowch wybod i ni am unrhyw bynciau a fyddai'n addas i'w cynnwys yn fodiwlau cylchdroi a'r pynciau y dylid eu cadw i roi gwybodaeth graidd** |

# 4. Cynllunio'r sampl ar gyfer casglu data Arolwg Iechyd Cymru

Mae Arolwg Iechyd Cymru wedi'i seilio ar sampl gynrychiadol o bobl sy'n byw ar aelwydydd preifat yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'r arolwg yn ceisio cynnwys sampl gyfan o tua 15,000 o oedolion, ac o leiaf 600 o oedolion yn ardal pob awdurdod lleol, a 3,000 o blant bob blwyddyn.

Mae cynllun a maint y sampl yn hanfodol wrth ystyried ffyrdd o gael y gwerth mwyaf am arian o gyllideb bresennol Arolwg Iechyd Cymru a chyfleoedd i arbed arian. Mae cynllun presennol y sampl yn rhoi'r gallu i lunio amcangyfrifon o'r arolwg ar lefel yr awdurdod lleol ar ôl gorsamplu awdurdodau llai a chyfuno'r data ar gyfer dwy flynedd. Drwy gyfuno data ar gyfer dwy flynedd gellir hefyd lunio amcangyfrifon ar lefel y bwrdd iechyd lleol. Mae maint y sampl yn dylanwadu hefyd ar y gallu i ddadansoddi is-grwpiau eraill yn y boblogaeth mewn ffordd ddibynadwy (e.e. rhai is-grwpiau a ddefnyddir yn aml ar gyfer Arolwg Iechyd Cymru yw oed a rhyw, cwintelau amddifadedd, grwpiau economaidd-gymdeithasol, ayyb). Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen cyfuno data o fwy nag un flwyddyn i lunio amcangyfrifon dibynadwy.

Lleihau'r sampl yw un dewis posibl a allai leihau costau ariannol (neu roi mwy o bwyslais ar agweddau eraill ar yr arolwg fel cynnwys mwy manwl neu ddadansoddi ychwanegol). Fodd bynnag, drwy wneud hynny mae'n bosibl na fyddai amcangyfrifon ar gael mor aml ar lefel yr awdurdod lleol ac y byddai'n cyfyngu hefyd ar y gallu i ddadansoddi rhai is-grwpiau eraill.

**Hoffem gael gwybod mwy am adrodd ar ganlyniadau Arolwg Iechyd Cymru ar lefel is na Chymru gyfan.**

| | **Pa mor ddefnyddiol yw'r is-grŵp?** | | | | **Pa mor aml y mae angen ei ddefnyddio?** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Is-grŵp:** | Defnyddiol iawn | Eithaf defnyddiol | Ddim yn ddefnyddiol iawn | Ddim yn ei ddefnyddio | Pob blwyddyn | Pob 2-3 blynedd | Llai aml | Dim gwahaniaeth |
| Awdurdod lleol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Bwrdd iechyd lleol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Oed a rhyw | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cwintelau amddifadedd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| NS-SEC | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Arall...rhowch fanylion | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Beth fyddai'r effaith pe na byddai is-grwpiau ar gael neu pe byddent ar gael yn llai aml?** | | | | | | | | |

| |
|---|
| |
| **Pa is-grwpiau eraill sydd o ddiddordeb i chi?**<br>*Rhowch enw’r is-grŵp ac eglurwch pam y mae ei angen* |
| **Rhowch unrhyw sylwadau eraill am is-grwpiau Arolwg Iechyd Cymru**<br>*Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau o sut yr ydych wedi defnyddio gwybodaeth am is-grwpiau* |
| **A fyddai gwybodaeth am ardaloedd mwy yn hytrach na’r awdurdodau lleol presennol yn ddigon?**<br>*Os na fyddai, pa wybodaeth ychwanegol y byddai ei hangen a pham?* |

## 5. Amlder casglu data Arolwg Iechyd Cymru a thueddiadau dros amser

Sefydlwyd Arolwg Iechyd Cymru yn Hydref 2003. Mae'n arolwg blynyddol ar hyn o bryd a chynhelir gwaith maes drwy'r flwyddyn ar sail y flwyddyn galendr.

Mae hyn yn rhoi'r gallu i gyhoeddi canlyniadau'n flynyddol. Felly gellir defnyddio data o Arolwg Iechyd Cymru i edrych ar dueddiadau dros amser ac mae data arolwg ar gael ar gyfer (hyd at) ddeg mlynedd hyd yn hyn. Yn achos cwestiynau sydd wedi aros yr un fath, mae hefyd yn bosibl cyfuno canlyniadau o fwy nag un flwyddyn i gynyddu'r sampl a llunio amcangyfrifon mwy dibynadwy ar gyfer is-grwpiau (fel awdurdodau lleol a byrddau iechyd).

Mae newid dulliau a chwestiynau'r arolwg yn gallu helpu i gadw'n wastad â'r datblygiadau a diddordebau diweddaraf, ond gall arwain hefyd at golli gwybodaeth am dueddiadau. Felly bydd angen dal y ddysgl yn wastad weithiau rhwng cadw gwybodaeth am dueddiadau ac adlewyrchu diddordebau newydd.

Fel y nodwyd yn barod, un peth i'w ystyried ar gyfer y dyfodol yw cyflwyno modiwlau craidd a modiwlau cylchdroi. Byddai hyn yn caniatáu casglu gwybodaeth graidd bob blwyddyn a gwybodaeth arall yn llai aml. Byddai amrywiaeth ehangach o wybodaeth yn cael ei chasglu ond byddai llai o ddata ar gael am dueddiadau.

**Hoffem gael gwybod mwy am eich barn am amlder casglu data Arolwg Iechyd Cymru a thueddiadau.**

| **Pa mor ddefnyddiol yw cael diweddariad blynyddol o'r canlyniadau ar gyfer pynciau allweddol?** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddiol iawn | ☐ | Eithaf defnyddiol | ☐ | Ddim yn ddefnyddiol iawn | ☐ | Ddim yn eu defnyddio | ☐ |
| *Eglurwch eich ateb* | | | | | | | |
| **Beth fyddai'r effaith pe byddai data Arolwg Iechyd Cymru yn cael eu casglu'n llai aml nag unwaith y flwyddyn?**<br>*Eglurwch eich ateb* | | | | | | | |
| **Pa mor bwysig i'ch gwaith yw'r gallu i edrych ar dueddiadau yn Arolwg Iechyd Cymru?** | | | | | | | |
| Pwysig iawn | ☐ | Eithaf pwysig | ☐ | Ddim yn bwysig iawn | ☐ | Ddim yn eu defnyddio | ☐ |
| **Beth fyddai'r effaith ar eich gwaith o golli gwybodaeth ddi-dor am dueddiadau?** | | | | | | | |

| |
|---|
| **Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych am y manteision o ddull cyson o weithredu (i gadw gwybodaeth am dueddiadau) o'i gymharu â datblygu parhaus (i adlewyrchu diddordebau cyfoes yn well)** |
| **Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych am amlder casglu data Arolwg Iechyd Cymru a/neu dueddiadau** |

## 6. Argaeledd canlyniadau Arolwg Iechyd Cymru

Mae canlyniadau cenedlaethol cychwynnol ar gyfer mesuriadau allweddol o Arolwg Iechyd Cymru yn cael eu cyhoeddi ym mis Mai bob blwyddyn ar ôl y flwyddyn galendr y maent yn ymwneud â hi. Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol wedyn ym mis Medi sy'n cynnwys canlyniadau mwy manwl. Mae prif benodau'r adroddiad yn ymwneud â statws iechyd, salwch, a chyflyrau eraill; ffordd o fyw sy'n gysylltiedig ag iechyd; defnyddio gwasanaethau iechyd; ac iechyd plant. Mae canfyddiadau o'r arolwg ar gyfer oedolion yn cael eu cyflwyno ar ffurf fwy manwl, gan gynnwys dadansoddiadau yn ôl oed a rhyw. Ar gyfer nifer o fesuriadau allweddol, dangosir dadansoddiadau demograffig-gymdeithasol hefyd, ynghyd â chymariaethau â blynyddoedd blaenorol. Dangosir dulliau a diffiniadau ar ddiwedd pob un o'r prif benodau, ac mae pennod sy'n ymdrin ag agweddau technegol ar yr arolwg.

Cyhoeddir bwletin ar wahân ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol sy'n dangos y prif ganfyddiadau o Arolwg Iechyd Cymru ar lefel yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol. Yn y bwletin hwn cyfunir data o ddwy flwyddyn ddiweddaraf yr arolwg i roi amcangyfrifon mwy cywir drwy ddefnyddio sampl fwy. Cyhoeddir adroddiad technegol bob blwyddyn hefyd sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am fethodoleg yr arolwg, ac adroddiad ar ansawdd, a gyhoeddir yn llai aml, sy'n dangos sut y mae'r arolwg yn cydymffurfio â safonau ansawdd.

Mae nifer o dablau Arolwg Iechyd Cymru yn cael eu cyhoeddi ar-lein, un ai ar ffurf dogfen Excel neu ar wefan StatsCymru, i gyd-fynd â'r canlyniadau diweddaraf. Cyhoeddir tablau ychwanegol ar-lein o bryd i'w gilydd, gan gynnwys rhai sy'n dangos y canlyniadau ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ar sail grwpiau oedran bras. Bob hyn a hyn cyhoeddir bwletinau ystadegol ad hoc ar bynciau penodol. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd bwletinau ar Iechyd Gofalwyr a Gweithgarwch Corfforol.

**Hoffem gael gwybod mwy am ba allbynnau sy'n cael eu defnyddio a pha mor ddefnyddiol ydynt.**

| | **Pa mor ddefnyddiol yw'r allbwn?** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Defnyddiol iawn | Eithaf defnyddiol | Ddim yn ddefnyddiol iawn | Ddim yn ei ddefnyddio |
| **Canlyniadau cychwynnol** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Adroddiad Blynyddol** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Bwletin Awdurdodau Lleol / Byrddau Iechyd Lleol** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Adroddiad technegol** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Tablau o dueddiadau** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Tablau StatsCymru** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| | **Pa mor ddefnyddiol yw gwybodaeth benodol i chi?** | | | |
| Sylwebaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Tablau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Siartiau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| **A ydych wedi defnyddio unrhyw dablau ar-lein ychwanegol?**<br>*Os ydych, beth oeddent a pha mor ddefnyddiol oeddent?* | Ydw<br><br>Nac ydw | ☐<br><br>☐ |
| **A ydych wedi defnyddio unrhyw fwletinau ystadegol ad hoc?**<br>*Os ydych, beth oeddent a rhowch unrhyw sylwadau amdanynt* | Ydw<br><br>Nac ydw | ☐<br><br>☐ |
| **Rhowch wybod i ni am unrhyw bynciau yr hoffech eu hawgrymu ar gyfer bwletinau ystadegol i'w cyhoeddi yn y dyfodol os bydd adnoddau ar gael** | | |
| **A fyddai'n ddefnyddiol i chi pe byddai dulliau delweddu data / graffeg gwybodaeth yn cael eu datblygu mewn allbynnau?**<br>*Os byddai, nodwch beth yn union yr hoffech ei gael ac, o gofio bod adnoddau'n gyfyngedig, a fyddai hyn yn ychwanegol at neu yn lle'r ddarpariaeth bresennol* | | |
| **Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych am allbynnau Arolwg Iechyd Cymru**<br>*Rhowch eich barn am yr allbynnau a sut y gellid eu gwella* | | |

Gellir darparu rhywfaint o wybodaeth ychwanegol ar gais, yn ôl yr adnoddau sydd ar gael ac ansawdd a chadernid y data ac ar yr amod bod cyfrinachedd ymatebwyr yn cael ei gadw.

**Hoffem gael gwybod mwy am geisiadau am wybodaeth ychwanegol o Arolwg Iechyd Cymru.**

| | | |
|---|---|---|
| **A ydych wedi gwneud cais i dîm Arolwg Iechyd Cymru am wybodaeth ychwanegol?**<br>*Os ydych, rhowch sylwadau am y gwasanaeth a gawsoch* | Ydw<br><br>Nac ydw | ☐<br><br>☐ |

Cedwir fersiwn o'r brif set ddata sydd heb enwau priod, ynghyd â dogfennau ategol, yn Archif Data'r DU bob blwyddyn (ar ôl tynnu rhai mathau o wybodaeth i sicrhau cyfrinachedd). Mae defnyddwyr cofrestredig yn cael gweld y setiau data hyn ar gyfer prosiectau ymchwil penodol. Gellir mynd at Archif Data'r DU drwy wefan Gwasanaeth Data'r DU. O bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y bydd ymchwilwyr am ddadansoddi data sy'n fwy manwl na'r rheini sydd ar gael yn Archif Data'r DU. Bydd tîm Arolwg Iechyd Cymru yn ystyried ceisiadau am ddata o'r fath yn ôl amgylchiadau'r achos dan sylw.

**Hoffem gael gwybod mwy am eich barn am setiau data Arolwg Iechyd Cymru.**

| | | |
|---|---|---|
| **A ydych wedi defnyddio setiau data Arolwg Iechyd Cymru?**<br>*Os ydych, nodwch y pwrpas a pha mor ddefnyddiol oeddent i chi* | Ydw<br><br>Nac ydw | ☐<br><br>☐ |

Drwy gymryd rhan yn Arolwg Iechyd Cymru, gellir darparu gwybodaeth am iechyd a ffyrdd o fyw sy’n gysylltiedig ag iechyd ar gyfer pobl sy’n byw yng Nghymru. Ar gyfer 2013 a 2014, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gofyn i ymatebwyr roi eu cydsyniad i’r GIG yng Nghymru ac uned ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gysylltu eu hatebion i’r arolwg â chofnodion eraill sy’n cael eu dal gan y GIG a sefydliadau cyhoeddus eraill (e.e. cofnodion meddygon teulu, ysbytai, ac addysg) mewn ffordd llwyr ddiogel a ddienw.

Drwy gysylltu atebion i’r arolwg â chofnodion eraill, ceir gwybodaeth ychwanegol y gellir ei defnyddio i ddeall gwahaniaethau mewn iechyd. Trefnir i’r data cysylltiedig dienw fod ar gael i ymchwilwyr mewn sefydliadau fel prifysgolion ac awdurdodau lleol ar gyfer prosiectau sydd wedi’u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Gwelwyd bod gofyn i ymatebwyr roi cydsyniad i gysylltu eu hatebion i’r arolwg â chofnodion eraill yn arwain at ostyngiad bach yn y cyfraddau ymateb i’r arolwg, felly rhaid cydbwyso’r manteision o allu cysylltu atebion yn erbyn yr anfanteision o gael cyfradd ymateb ychydig is / sampl lai.

**Hoffem gael gwybod mwy am y ffyrdd posibl o ddefnyddio atebion sydd wedi’u cysylltu.**

| |
|---|
| **Pa fantais y byddech yn ei gweld mewn cysylltu Arolwg Iechyd Cymru â ffynonellau data eraill?**<br>*Nodwch unrhyw angen penodol yr ydych wedi’i bennu* |

# 7. Blaenoriaethau

Hoffem sicrhau y bydd unrhyw ddull yn y dyfodol ar gyfer ein harolygon yn parhau i gwrdd ag anghenion ei defnyddwyr gan roi gwerth da am arian. Mae ffactorau fel maint y sampl, amlder yr arolwg, cynnwys yr arolwg, a maint y dadansoddi / cofnodi yn effeithio ar faint y wybodaeth sydd ar gael ac ar gost yr arolwg.

Er mwyn ein helpu i ddewis yr opsiwn gorau ar gyfer y dyfodol, ac i ymaddasu os bydd strwythur yr arolwg neu'r cyllid yn newid, nodwch pa mor bwysig yw pob un o'r agweddau isod i chi.

**Hoffem gael gwybod mwy am eich blaenoriaethau ar gyfer Arolwg Iechyd Cymru.**

| | **Pa mor bwysig yw'r agwedd hon?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Pwysig iawn | Pwysig | Eithaf pwysig | Ddim yn bwysig iawn | Ddim yn bwysig o gwbl |
| Maint y sampl | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Amlder yr arolwg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Y gallu i gynnwys cwestiynau ychwanegol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwybodaeth ddi-dor am dueddiadau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Nifer a manylder y dadansoddiadau a gyhoeddir | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych am flaenoriaethau Arolwg Iechyd Cymru a dewisiadau ar gyfer yr arolwg** | | | | | |

| | | |
|---|---|---|
| **A fyddech yn ystyried noddi cwestiynau neu gynnydd yn y sampl mewn arolygon yn y dyfodol?**<br>*Os byddech, rhowch fwy o fanylion* | Byddwn<br><br>Na fyddwn | ☐<br><br>☐ |

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, cynhelir adolygiad ehangach o'r opsiynau ar gyfer cynnal arolygon ar raddfa fawr yng Nghymru, yn cynnwys Arolwg Iechyd Cymru, yn y dyfodol. Mae'r adolygiad yn cydnabod bod angen parhau i gasglu gwybodaeth o ansawdd uchel drwy arolygon, a bod arolygon unigol yn cael eu cynnal mewn ffordd effeithlon a chost-effeithiol, ond yn derbyn bod posibilrwydd o gael arbedion effeithlonrwydd ar draws arolygon. Bydd yr adolygiad yn ystyried a oes cyfle i gyfuno neu symleiddio rhai arolygon er mwyn darparu'r wybodaeth fanwl, ddibynadwy sydd ei hangen mewn ffordd mor effeithlon a chost-effeithiol â phosibl.

**Hoffem gael gwybod mwy am eich barn am y berthynas rhwng Arolwg Iechyd Cymru ac arolygon cymdeithasol eraill ar raddfa fawr sy'n cael eu comisiynu neu eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.**

| **Pa rai o'r arolygon cartrefi canlynol yr ydych yn eu defnyddio?** | | |
|---|---|---|
| Arolwg Cenedlaethol Cymru | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |
| Arolwg Oedolion Egnïol (sy'n cael ei redeg gan Chwaraeon Cymru) | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |
| Arall…rhowch fanylion | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |
| **Rhowch eich barn am resymoli neu gyfuno unrhyw un o'r arolygon uchod ag Arolwg Iechyd Cymru. A ydych yn credu bod unrhyw orgyffwrdd rhwng yr arolygon hyn ac Arolwg Iechyd Cymru?** | | |

# 8. Y Camau Nesaf

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 21 May 2014 a **13 Awst 2014 yw'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno ymatebion**.

Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ddiweddarach yn 2014.

Byddem yn ddiolchgar am adborth ynghylch cynnwys Arolwg Iechyd Cymru a'r dull o gasglu data ar ei gyfer yn y dyfodol, ac yn enwedig ynghylch y cwestiynau sydd wedi'u rhestru yn y ddogfen hon.

**Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau eraill am Arolwg Iechyd Cymru ynghylch materion sydd heb eu cynnwys uchod.**

| |
|---|
| **Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych am gynnwys Arolwg Iechyd Cymru a'r dull o gasglu data ar ei gyfer (sydd heb eu nodi'n barod) neu am waith ar Arolwg Iechyd Cymru** |

## Atodiad A. Rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad

**Defnyddwyr Arolwg Iechyd Cymru a'i ddibenion**
**C.** Pa mor ddefnyddiol yw Arolwg Iechyd Cymru i chi? Ar gyfer beth rydych yn ei ddefnyddio?
**C.** A fyddech yn hoffi defnyddio Arolwg Iechyd Cymru at ddiben penodol ond yn methu â gwneud hynny ar hyn o bryd?
**C.** Pe na byddai Arolwg Iechyd Cymru ar gael, beth fyddai effaith hynny ar eich gwaith?

**Cynnwys Arolwg Iechyd Cymru**
**C.** Pa mor ddefnyddiol yw'r pynciau presennol? Pa mor aml y mae angen eu defnyddio?
**C.** A oes unrhyw bynciau eraill y teimlwch fod angen eu cynnwys yn Arolwg Iechyd Cymru?
**C.** Beth yw'ch barn am gyflwyno modiwlau craidd a modiwlau cylchdroi?
**C.** A oes unrhyw bynciau a fyddai'n addas i'w cynnwys yn fodiwlau cylchdroi?

**Cynllunio'r sampl ar gyfer casglu data Arolwg Iechyd Cymru**
**C.** Pa mor ddefnyddiol yw'r is-grwpiau presennol? Pa mor aml y mae angen eu defnyddio?
**C.** Beth fyddai'r effaith pe na byddai is-grwpiau ar gael neu pe byddent ar gael yn llai aml?
**C.** Pa is-grwpiau eraill sydd o ddiddordeb i chi?
**C.** A fyddai gwybodaeth am ardaloedd mwy yn hytrach na'r awdurdodau lleol presennol yn ddigon?

**Amlder casglu data Arolwg Iechyd Cymru a thueddiadau dros amser**
**C.** Pa mor ddefnyddiol yw cael diweddariad blynyddol o'r canlyniadau ar gyfer pynciau allweddol?
**C.** Beth fyddai'r effaith pe byddai data Arolwg Iechyd Cymru yn cael eu casglu'n llai aml nag unwaith y flwyddyn?
**C.** Pa mor bwysig i'ch gwaith yw'r gallu i edrych ar dueddiadau yn Arolwg Iechyd Cymru?
**C.** Beth fyddai'r effaith ar eich gwaith o golli gwybodaeth ddi-dor am dueddiadau?

**Argaeledd canlyniadau Arolwg Iechyd Cymru**
**C.** Pa mor ddefnyddiol yw'r allbynnau presennol? Pa mor ddefnyddiol yw gwybodaeth benodol i chi?
**C.** A fyddai'n ddefnyddiol i chi pe byddai dulliau delweddu data / graffeg gwybodaeth yn cael eu datblygu mewn allbynnau?
**C.** A ydych wedi gwneud cais i dîm Arolwg Iechyd Cymru am wybodaeth ychwanegol?
**C.** A ydych wedi defnyddio setiau data Arolwg Iechyd Cymru?
**C.** Pa fantais y byddech yn ei gweld mewn cysylltu Arolwg Iechyd Cymru â ffynonellau data eraill?

**Blaenoriaethau**
**C.** Pa mor bwysig yw agweddau penodol?
**C.** A fyddech yn ystyried noddi cwestiynau neu gynnydd yn y sampl mewn arolygon yn y dyfodol?
**C.** Pa rai o'r arolygon cartrefi canlynol yr ydych yn eu defnyddio?

**C.** Beth yw'ch barn am resymoli neu gyfuno unrhyw un o'r arolygon a nodwyd ag Arolwg Iechyd Cymru? A ydych yn credu bod unrhyw orgyffwrdd rhwng yr arolygon hyn ac Arolwg Iechyd Cymru?

**Y Camau Nesaf**

**C.** A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am gynnwys Arolwg Iechyd Cymru a'r dull o gasglu data ar ei gyfer (sydd heb eu nodi'n barod) neu am waith ar Arolwg Iechyd Cymru?